**CYPE(6)-18-22 - Papur i'w nodi 9**

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Philip Baker, Prif Weithredwr

Cymwysterau Cymru

28 Medi 2022

**Y "polisi canolbwynt bras"**

Annwyl Philip,

Diolch i chi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 21 Medi i siarad â ni am gyfres arholiadau haf 2022, yn enwedig o gofio eich bod yn wael ar y pryd. Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr eich ymrwymiad i drafod y materion pwysig hyn â ni. Gobeithio eich bod yn teimlo'n well.

Fe ddywedoch chi a'ch cydweithwyr wrthym yn ystod y sesiwn dystiolaeth honno eich bod yn teimlo bod y "polisi canolbwynt bras" wedi'i gyflawni eleni. Gwnaethoch chi hefyd gadarnhau i ni fod y canlyniadau eleni yn agosach at y canlyniadau yn 2021 nag at y canlyniadau yn 2019. Mae hyn yn arbennig o amlwg mewn canlyniadau Safon Uwch ar bob gradd i lawr at radd C, a chanlyniadau Safon UG a TGAU ar raddau A ac uwch. Gwnaethoch esbonio bod hyn yn rhannol oherwydd eich penderfyniad ymwybodol i fod ychydig yn hael. Gwnaethoch hefyd esbonio bod penderfyniad hwyr yn Lloegr i symud y pwysoliad tuag at ganlyniadau uwch 2021 wedi effeithio ar eich penderfyniadau o ran Cymru gan nad oeddech am i ddysgwyr fod o dan anfantais o'u cymharu â'u cyfoedion mewn mannau eraill.

Rydym yn deall y penderfyniad hwn. Rydym hefyd yn cydnabod yr heriau rydych yn eu hwynebu wrth wneud penderfyniadau am arholiadau yng Nghymru pan fydd penderfyniadau hefyd yn cael eu gwneud dros y ffin yn Lloegr sy'n cael effaith sylweddol ar ddysgwyr Cymru.

Fodd bynnag, hoffem eich cadarnhad bod y penderfyniadau a wnaethoch ynglŷn ag arholiadau haf 2022 yng Nghymru wedi eu gwneud er y budd mwyaf i ddysgwyr Cymru. A allwch chi roi manylion y canlynol os gwelwch yn dda:

- pryd y gwyddech chi gyntaf am y penderfyniad yn Lloegr i symud y pwysoliad tuag at ganlyniadau uwch 2021;

- a gymerasoch unrhyw ran yn y penderfyniad hwnnw a phan y gwnaed y penderfyniad tebyg yng Nghymru; ac
- a fyddech chi a CBAC wedi mynd ati i osod ffiniau graddau ar gyfer arholiadau Haf 2022 yng Nghymru yn wahanol pe na bai'r penderfyniad wedi'i wneud yn Lloegr i symud y pwysoliad at ganlyniadau uwch 2021?

Un o ddibenion y "polisi canolbwynt bras" oedd osgoi cwymp llwyr o ran pa mor hael y dyfernir graddau o un flwyddyn i'r llall - 'ymyl clogwyn' - wrth i'r broses o ddyfarnu graddau bontio o'r dull mwy hael a fabwysiadwyd drwy gydol y pandemig (h.y. 2022 a 2021) i'r hyn yr oedd cyn y pandemig (h.y. 2019).

Rydym yn pryderu y gallai'r penderfyniad i symud pwysoliad canlyniadau 2022 tuag at ganlyniadau mwy hael 2021 olygu bod ymyl clogwyn yn dal i fodoli (er ei fod yn un llai) yn 2023, yn hytrach na chael ei osgoi'n gyfan gwbl. A ydych yn credu y bydd dysgwyr sy'n cael graddau yn 2023 yn wynebu ymyl clogwyn o'i gymharu â'u cyfoedion yn 2022 os yw'r graddio yn 2023 yn dychwelyd i'r lefelau cyn y pandemig? Beth, os unrhyw beth, rydych chi'n bwriadu ei wneud i sicrhau pontio llyfn yn ôl i raddio cyn y pandemig a sicrhau tegwch i bob carfan?

Rwy'n deall bod eich Bwrdd wrthi'n ystyried opsiynau ar gyfer cyfres arholiadau mis Tachwedd 2022 a haf 2023. Rwy'n dychmygu y bydd y penderfyniadau hynny'n llywio eich ymatebion i fy nghwestiynau uchod. Gwn y byddwch yn ceisio gwneud y penderfyniadau hynny'n gyflym, ond rwy'n deall efallai y bydd angen i chi gwrdd â rhanddeiliaid ac ati i gyfleu'r penderfyniadau hynny cyn ymateb i ni.

Gyda hynny mewn golwg, a allwch chi ateb y llythyr hwn erbyn dydd Iau 13 Hydref fan bellaf os gwelwch yn dda? Os yw'n anodd i chi wneud hynny erbyn y dyddiad hwn, cysylltwch â'r clercod (SeneddPlant@Senedd.Cymru).

Yn gywir

Jayne Bryant AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.